Help!

Helpu eraill / Meddwl am eraill

Torrodd ton fawr ar y traeth. Gadawyd pysgodyn ar y tywod. Dyna lle roedd y pysgodyn yn stryglo i geisio mynd yn ôl i'r môr. Gwaeddai, "Help! Help! Wnewch chi fy helpu i fynd yn ôl i ddyfroedd y môr."

Daeth dyn cyfoethog heibio'r traeth. Clywodd gri'r pysgodyn. "Mae'n wir ddrwg gen i ond ni allaf dy helpu. Rwy'n brysur iawn. Rwyf ar fy ffordd i'r banc. Rydw i'n hwyr yn barod. Mae'n wir ddrwg gen i !" Ac i ffwrdd â fo ar frys.

Daliai'r pysgodyn i weiddi am help. Daeth ymwelydd heibio. Roedd ef ar ei wyliau yn yr ardal felly roedd ganddo ddigon o amser.

"Mae'n wir ddrwg gen i, ond allai ddim helpu. Does gen i ddim ffon na dim i'th wthio'n ôl i'r môr. Does gen i ddim byd. Rwyf ar fy ngwyliau. Efallai y daw un o bobl yr ardal heibio. Mae'n well i mi fynd." Ac i ffwrdd â fo ar hyd y traeth.

Daeth gwraig wedi ei gwisgo mewn dillad llachar heibio. Clywodd gri'r pysgodyn. "Rwy'n marw . Os gwelwch yn dda wnewch chi fy ngwthio yn ôl i'r môr," plediodd y pysgodyn. "Brysiwch, rwyf bron â marw."

Edrychodd y wraig yn dosturiol arno ac meddai, "Cyn i mi fedru dy helpu mae'n rhaid i mi wybod mwy amdanat. Wnei di ddweud yn union sut rwyt ti wedi cyrraedd y traeth yma?"

Dywedodd y pysgodyn ei hanes i gyd. Soniodd am ei deulu, ei frodyr a'i chwiorydd, ei ddiddordebau a phopeth arall dan haul. Gwrandawai'r wraig yn astud ar y pysgodyn ac meddai, "Ond cyn i mi dy roi yn ôl yn y môr mae'n rhaid i ti drio cofio sut yn union y cododd yn don fawr a'th daflu ar y traeth. Oherwydd pan fyddai'n dy roi yn ôl yn y môr yna fyddi di byth yn dod yn ôl i'r traeth hwn nag unrhyw draeth arall."

Pan oedd y wraig yn holi fel hyn, bu farw'r pysgodyn. Ysgydwodd ei phen ac aeth ar ei thaith.

Daeth hen ŵr heibio. Gwelodd y pysgodyn marw. "Tydi'r môr

yn greulon" meddai'n ddigalon. "Dim gwerth bellach poeni am y pysgodyn. Beth fedra ni ei wneud? Dyna ydi bywyd. Mae bywyd yn gallu bod yn greulon iawn."
Bu'r traeth yn ddistaw am hydoedd. Rhyw fore daeth ton ysgafn a chodi corff y pysgodyn marw a'i gario'n ôl i ddyfroedd y môr.
Daeth yr ymwelydd heibio un bore a gwelodd y pysgodyn yn y môr. "Dyna fo" meddai, "Roeddwn i'n iawn. Os oes rhywun yn awyddus i helpu ei hun yna mae'n sicr o lwyddo. Dyna fo, mae'r pysgodyn wedi mynd yn ôl i ddyfroedd y môr."

Tybed, Arglwydd ai fi sy'n gyfrifol
fod llawer o bobl yn dioddef yn y byd?
am y rheswm syml nad ydw i'n
barod i helpu a gweithredu. Amen.

✦ Trafodwch un o ddamhegion Iesu Grist sef Dameg y Samariad Trugarog yn Efengyl Luc.
Oes yna debygrwydd rhwng y ddameg a'r stori hon?